Diolchiadau

Mae Etholiadau'n Eithrio yn brosiect ar y cyd rhwng Scope Cwmpas Cymru, Comisiwn Hawliau Anabledd Cymru a thîm ymgyrchoedd Scope.

Hoffem ddiolch i bawb a lenwodd arolwg Etholiadau'n Eithrio. Gwerthfawrogir eich cymorth.

Hoffem hefyd ddiolch i'r Cynulliad Cenedlaethol am ei grant hael i gefnogi prosiect Etholiadau'n Eithrio.

© Adran Ymgyrchoedd, Scope, Gorffennaf 2003

Cyhoeddwyd gan Scope, 6 Market Road, London, N7 9PW

Cedwir pob hawl.

Dyluniwyd gan Wasanaethau Creadigol Scope

Argraffwyd yn Lloegr

ISBN 0 946828 67 9

I ddysgu mwy am Etholiadau'n Eithrio ewch i www.pollsapartcymru.org.uk neu ebostiwch info@pollsapart.org.uk

Gallwch hefyd ysgrifennu atom d/o Scope Cwmpas Cymru, Y Lanfa, Ffordd y Sgwner, Caerdydd, CF10 4EU. Ffôn 02920 461703

Rhoddwyd cefnogaeth gyfathrebu a rheolaeth prosiect ar gyfer prosiect Etholiadau'n Eithrio gan The Pollen Shop ltd. www.thepollenshop.co.uk

Ffotograff ar y clawr Mandi Glover, Cadeirydd Scope Cwmpas Cymru tu allan o orsaf bleidleisio mewn carafan ym Mro Morgannwg. Ffotograff gan Stella Hughes.

Cynnwys

Diolchiadau

3 **Cynnwys**

4 **Crynodeb**

6 **Prif ystadegau**

7 **Cefndir i Etholiadau'n Eithrio**

10 **Methodoleg ymchwil Etholiadau'n Eithrio**

12 **Canlyniadau**

12 **Hygyrchedd cyffredinol**

15 **Cyrraedd i'r orsaf bleidleisio**

18 **Lleoliad gorsafoedd pleidleisio**

20 **Cyrraedd i mewn i'r orsaf bleidleisio**

23 **Tu fewn i'r orsaf bleidleisio**

25 **Materion hygyrchedd ar gyfer pobl ag amhariad clyw**

26 **Pleidleisio**

28 **Staff yr orsaf bleidleisio**

30 **Materion eraill hygyrchedd**

31 **Pleidlais bost**

32 **Sut y gellir gwella hygyrchedd**

35 **Argymhellion**

37 **Canlyniadau**

38 **Dadansoddiad o awdurdodau lleol**

39 **Rhestr wirio hygyrchedd**

42 **Ymgyrchu o gwmpas Etholiadau'n Eithrio**

43 **Etholiadau yng Nghymru**

44 **Maniffestos y Pleidiau**

47 **Cysylltiadau Defnyddiol**

Crynodeb

Gwerthusiad o hygyrchedd y gorsafoedd pleidleisio a ddefnyddiwyd ar 1 Mai 2003 ar gyfer etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw Etholiadau'n Eithrio.

Ymgyrch yw Etholiadau'n Eithrio i wneud gorsafoedd pleidleisio yn hygyrch i bleidleiswyr anabl drwy'r DG gyfan. Mae ymchwil Etholiadau'n Eithrio blaenorol wedi edrych ar etholaethau yng Nghymru ond dyma'r tro cyntaf y cynhaliwyd gwerthusiad Cymru gyfan.

Rhoddodd Scope Cwmpas Cymru, y Comisiwn Hawliau Anabledd (DRC) Cymru a thîm ymgyrchoedd Scope y fframwaith ar gyfer yr ymgyrch. Derbyniodd y prosiect grant gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Darperir ymchwil Etholiadau'n Eithrio gan wirfoddolwyr ymgyrch sy'n llenwi arolwg pan fyddant yn pleidleisio. Derbyniodd Etholiadau'n Eithrio 363 o ffurflenni yn ôl yn cwmpasu 322 o orsafoedd pleidleisio. Roedd hyn yn cynnwys pob etholaeth yng Nghymru.

Roedd yr arolwg yn cynnwys cwestiynau ar ystod eang o faterion hygyrchedd. Gofynnom hefyd i'r bobl a lenwodd yr holiadur i gynnig sylwad am eu profiadau ac i bwysleisio enghreifftiau o arfer dda ac arfer wael.

Roeddem yn gallu cymharu canlyniadau Etholiadau'n Eithrio gydag Etholiadau'n Eithrio 3. Arolwg oedd hwn a wnaed ar gyfer Etholiad Cyffredinol 2001 a ddaeth i'r canlyniad bod 66% o'r gorsafoedd pleidleisio a adolygwyd yng Nghymru yn anhygyrch. Gwelodd Etholiadau'n Eithrio bod 77% o'r gorsafoedd pleidleisio yn anhygyrch.

Efallai mai esboniad am y cynnydd hwn yw fod Etholiadau'n Eithrio 3 wedi tanamcangyfrfi y problemau ac yn Etholiadau'n Eithrio archwiliom fwy o orsafoedd pleidleisio mewn mwy o etholaethau gan roi canlyniadau mwy cywir i ni.

Sut bynnag y byddwn yn edrych arno, mae hygyrchedd gorsafoedd pleidleisio yng Nghymru yn wael. Methodd dros un o bob pedair o'r gorsafoedd pleidleisio yn ein harolwg brawf hygyrchedd sylfaenol. Mae 13,000 o bobl anabl ymhob etholaeth ar gyfartaledd ac mae nifer ohonynt yn ei chael hi'n anodd os nad yn amhosib i bleidleisio.

Fel ymhob etholiad seneddol, lleol ac Ewropeaidd yn y DG, roedd gan Swyddogion Canlyniadau yn etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol ddyletswydd i sicrhau ble bynnag fo hynny'n bosib fod gorsafoedd pleidleisio yn hygyrch a'u bod yn cydymffurfio â'r dyletswyddau a osodwyd yn y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd1995, Deddf Iawnderau Dynol 1998 a Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000.

Datgelodd Etholiadau'n Eithrio fod cludiant i'r gorsafoedd pleidleisio yn broblem ar gyfer nifer o bobl anabl. Nid yw cyrraedd yr orsaf bleidleisio yn hawdd heb gar mewn sawl ardal. Golyga hyn bod cynllunio cludiant yn dod yn fater pwysig pan yn gwneud etholiadau yn hygyrch yng Nghymru.

Ni fwriadwyd i'r adroddiad hwn feirniadu gwaith y Gweinyddwyr Etholiadol a gobeithiwn y bydd Swyddogion Canlyniadau yn cymryd sylw o nifer o'r materion yr ydym wedi eu codi. Roedd yna esiamplau o arfer dda a dywedodd nifer o bobl a ddychwelodd yr arolwg pa mor groesawgar a chymwynasgar oedd staff yr orsaf bleidleisio.

Mae rhai o'n hargymhellion yn syml dros ben a gellir eu mabwysiadu ymhob gorsaf bleidleisio heb fawr o gost, er enghraifft: defnyddio blychau pleidleisio a bocsys pleidleisio isel, troi'r golau ymlaen yn y gorsafoedd pleidleisio a gwneud yn siwr fod papurau pleidleisio mawr yn cael eu harddangos ar uchder sy'n ddarllenadwy.

Mae ein pryder yn parhau na fydd gorsafoedd pleidleisio yn cael eu gwneud yn hygyrch erbyn Hydref 2003. Dyma'r dyddiad y bydd rheoliadau yn ymwneud â hygyrchedd corfforol i adeiladau yn dod i rym fel rhan o Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd Rhan III.

Gobeithiwn y byd rhai o'r syniadau a gynhyrchir yn gan ymgyrch Etholiadau'n Eithrio sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad hwn yn gymorth i ganfod sut y gellir gwella hygyrchedd.

Prif ystadegau	
Gorsafoedd pleidleisio na ellid mynd i mewn iddynt	77%
Pobl oedd yn gorfod teithio dros ½ milltir i bleidleisio	42%
Pobl a deithiodd i'w gorsafoedd pleidleisio ar gludiant cyhoeddus	1%
Gorsafoedd pleidleisio heb barcio penodedig ar gyfer pobl anabl	75%
Gorsafoedd pleidleisio heb fynediad gwastad i'r fynedfa	54%
Gorsafoedd pleidleisio heb fynediad gwastad tu fewn iddynt	10%
Gorsafoedd pleidleisio heb flwch isel	36%
Gorsafoedd pleidleisio heb gopi print bras o'r papur pleidleisio	23%
Gorsafoedd pleidleisio oedd heb eu goleuo'n dda	29%
Gorsafoedd pleidleisio heb flwch pleidleisio isel	35%
Pobl oedd yn teimlo fod staff gorsafoedd pleidleisio yn groesawgar ac yn gymwynasgar	85%
Nifer yr arolygon a ddychwelwyd	388
Gorsafoedd pleidleisio a arolygwyd	325

Cefndir i Etholiadau'n Eithrio

Gwerthusiad o hygyrchedd gorsafoedd pleidleisio ar 1 Mai 2003 ar gyfer etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw Etholiadau'n Eithrio.

> **"Nes y llenwais yr arolwg roeddwn wedi cymryd yn ganiataol fod y broses o bleidleisio yn hawdd. Cyrraedd, pleidleisio a gadael. Ond nawr rwy'n sylweddoli bod yn rhaid i nifer o bobl anabl oresgyn cwrs rhwystrau hir a diangen dim ond i gyrraedd y blwch pleidleisio."**
> Gwerthusiad Defnyddwyr Etholiadau'n Eithrio 2001, Ceredigion

Hanes Etholiadau'n Eithrio

Dros nifer o flynddoedd mae ymgyrchwyr anabledd wedi teimlo nad oedd digon yn cael ei wneud i dynnu'r rhwystrau yr oedd pobl anabl yn dod ar eu traws mewn gorsafoedd pleidleisio. Er fod pobl anabl yn gwybod eu bod yn cael eu heithrio o'r broses ddemocrataidd roeddent yn credu nad oedd digon o bobl mewn grym yn cymryd y mater o ddifrif.

I wrthwneud hyn, lansiodd Scope Etholiadau'n Eithrio yn 1992. Canolbwyntiodd yr ymgyrch ar gael gymaint o dystiolaeth â phosib ar hygyrchedd gorsafoedd pleidleisio drwy Loegr a Chymru. Roedd y canlyniadau'n syfrdanol. Roedd dros 90% o orsafoedd pleidleisio yn anhygyrch mewn rhyw ffordd.

Ymhob Etholiad Cyffredinol ers 1992 rydym wedi ailadrodd yr arolwg. Rydym wedi gweithio gyda gwleidyddion, gweinyddwyr etholiadol a sefydliadau eraill sydd â diddordeb mewn democratiaeth i geisio gwella hygyrchedd. Mae newid i ddeddfwriaeth wedi cynorthwyo, gan fod llawer o bobl wedi ei diogelu trwy gyfraith rhag gwahaniaethu. Mae nifer o awdurdodau lleol hefyd wedi cymryd sylw o'r angen i gynnal etholiadau sy'n hygyrch. Yn Etholiad Cyffredinol 2001 roedd 66% o orsafoedd pleidleisio yng Nghymru yn dal yn anhygyrch.

Model cymdeithasol

Mae Etholiadau'n Eithrio yn ymgyrchu o safbwynt y model cymdeithasol o anabledd. Golyga hyn yn syml ein bod yn credu bod cymdeithas wedi creu rhwystrau sy'n eithrio pobl anabl ac y gellid ac y dylid tynnu'r rhwystrau hyn.

Gall y rhwystrau y bydd pobl anabl yn dod ar eu traws pan yn pleidleisio fod ar sawl ffurf; o orsafoedd pleidleisio gyda grisiau yn arwain iddynt i gardiau pleidleisio wedi eu hysgrifennu mewn print mân i agwedd staff gorsaf bleidleisio. Gellir chwalu pob un o'r rhwystrau hyn; gellid gwneud gorsafoedd pleidleisio yn hygyrch neu eu symud i adeilad sy'n hygyrch, gellir cynllunio cardiau pleidleisio gan ddefnyddio ffont fwy a gall staff gorsafoedd pleidleisio gael hyfforddiant mewn cydraddoldeb anabledd.

Etholiadau'n Eithrio

Ers ei ddechrau yn 1992 mae Etholiadau'n Eithrio wedi cwmpasu Gymru gyfan. Mae ymgyrchwyr yng Nghymru wedi cynnal arolygon o orsafoedd pleidleisio ac mae'r canlyniadau wedi eu bwydo i ddarlun hygyrchedd DG eang. Dangosodd y canlyniadau fodd bynnag faterion hygyrchedd nodweddiadol sy'n arbennig neu'n fwy amlwg yng nghyd-destun Cymru.

Er ein bod yn gallu cael gwybodaeth ar hygyrchedd gorsafoedd pleidleisio yng Nghymru yn Etholiad Cyffredinol 2001, roedd angen i ni gael data mwy penodol. Roedd materion fel y pellter yr oedd yn rhaid i bobl deithio i bleidleisio y gellid ond ei archwilio petaem yn teilwra'r ymgyrch i adlewyrchu profiad Cymru'n benodol.

Mae ymgyrchwyr anabledd Cymru hefyd yn awyddus bod hygyrchedd yr etholiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol yn cael eu gwerthuso'n llawn. Cynhaliwyd ymchwil Etholiadau'n Eithrio cyfyngedig ar gyfer etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol cyntaf ond nid oedd hyn yn cynnwys Cymru gyfan.

Penderfynodd Scope Cwmpas Cymru mewn partneriaeth gyda Comisiwn Hawliau Anabledd (DRC) Cymru gynnal ymchwil i hygyrchedd Etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol 2003. Penderfynwyd y byddai'r ymchwil yn dilyn yr un fformat ag Etholiadau'n Eithrio ond bod ganddo ganolbwynt Cymreig. Galluogodd hyn hefyd i ystadegau blaenorol gael eu defnyddio fel meincnod i gymharu hygyrchedd. Rhoddwyd y teitl Etholiadau'n Eithrio i'r ymchwil.

Gofynnwyd i dîm ymgyrchoedd Scope i gyfrannu i'r ymchwil gan fod ganddynt gyfoeth o wybodaeth ar ymchwilio i hygyrchedd gorsafoedd pleidleisio.

Cynhaliwyd Etholiadau'n Eithrio o swyddfa Scope Cwmpas Cymru yng Nghaerdydd ond gyda chefnogaeth weithredol gan DRC Cymru a thîm ymgyrchoedd Scope. Mae llwyddiant yr ymgyrch o ganlyniad yn bennaf i waith called staff y sefydliadau hyn.

Mae'r ymgyrch hefyd wedi cael cefnogaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru sydd wedi bod yn garedig a chyfrannu grant i rannol ariannu'r prosiect.

Amcanion Etholiadau'n Eithrio

Mae gan Etholiadau'n Eithrio ddau amcan:

- Asesu hygyrchedd etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mai 2003
- Canfod esiamplau o arfer dda a hygyrchedd mewn gorsafoedd pleidleisio

Adolygiad Hygyrchedd Anabledd (Cymru)

Mae Etholiadau'n Eithrio yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r Comisiwn Etholiadol ar ystod o brosiectau. Rannwyd yr ymchwil data a gasglwyd gan Etholiadau'n Eithrio gydag Adolygiad Hygyrchedd Anabledd (Cymru) y Comisiwn Etholiadol.

Ymrwymiad i fod yn hygyrch

Fel ymhob etholiad seneddol, lleol ac Ewropeaidd yn y DG, roedd yn rhaid i'r swyddog canlyniadau yn etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol wneud yn siwr fod y prosesau yr oeddent yn eu defnyddio yn hygyrch.

Yn benodol roedd yn rhaid iddynt wneud yn siwr eu bod yn cydymffurfio â:

- Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995
- Deddf Iawnderau Dynol 1998
- Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000

Byddai methu â gwneud yn siwr bod etholiad yn hygyrch, a bod pobl anabl yn gallu pleidleisio'n gyfrinachol, yn torri'r ddeddfwriaeth yma.

Eithrio'r etholaeth

Mae 13,000 o bobl anabl ymhob etholaeth ar gyfartaledd. Caiff y ffigur hwn ei seilio ar y wybodaeth fod gan un o bob saith person yn y DG amhariad,er bod y ffigur hwn yn debyg o fod yn uwch yng Nghymru.

Nid yw'r mwyafrif o amhariadau yn amlwg ar unwaith, hynny yw nid yw pobl yn sylwi arnynt.

Nid yw pobl anabl yn grŵp homogenaidd, ac mae gwahanol bobl yn dod ar draws rhwystrau gwahanol iawn. I wneud yn siwr bod etholiad yn hygyrch mae angen fan leiaf i ystyried anghenion y grwpiau canlynol

- Pobl gydag amhariad gweledol gan gynnwys pobl sy'n gallu gweld ychydig
- Pobl gydag amhariad clywedol gan gynnwys pobl sy'n gallu clywed ychydig
- Pobl gydag amhariad cyfathrebu megis dyslecsia neu ychydig o leferydd neu dim lleferydd
- Pobl gydag anableddau dysgu a phobl gyda lefelau llythrennedd isel
- Pobl gydag amhariadau cydsymud neu symud
- Pobl gydag amhariadau niwrolegol gan gynnwys y rheini gyda chyflyrau aphasic (colli lleferydd)

Pobl hŷn

Bydd llawer o bobl yn cael amhariadau mewn henaint. Pan ddigwydd hyn ni fydd pobl yn edrych arnynt fel anabl. Mae'r rhwystrau y daw pobl hŷn gydag amhariadau ar eu traws union yr un rhai â phobl anabl eraill. Efallai, fodd bynnag, na fydd pobl hŷn yn ymwybodol bod y cymorth a roddir i bobl anabl hefyd yn berthnasol iddynt hwy.

Methodoleg ymchwil Etholiadau'n Eithrio

Mae ymchwil Etholiadau'n Eithrio wedi ei seilio ar waith caled ymgyrchwyr anabledd. Mae bob ymgyrchwr Etholiadau'n Eithrio yn llenwi arolwg hygyrchedd o'r gorsafoedd pleidleisio y maent yn eu defnyddio i bleidleisio. Adnabyddir hwn fel "gwerthusiad defnyddwyr". Cynhwysir llawer o'r sylwadau o'r gwerthusiadau defnyddwyr yn yr adroddiad hwn. Dychwelir y rhain i ni, wedi eu coladu a'u dadansoddi. Gyda'i gilydd maent yn gymorth i adeiladu darlun o hygyrchedd etholiad.

Byddwn hefyd yn cysylltu â swyddogion canlyniadau i ofyn os ydynt hwy'n ymwybodol o unrhyw broblemau hygyrchedd penodol neu os oes ganddynt unrhyw esiamplau o arfer dda.

Arolwg Etholiadau'n Eithrio

Seiliwyd yr arolwg ar gyfer etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol 2003 ar ymchwil flaenorol Etholiadau'n Eithrio. Gofynnom i'n gwirfoddolwyr ymgyrch i edrych ar 30 o faterion hygyrchedd allweddol. Yr un oedd y cwestiwn canolog craidd ag a ddefnyddiwyd yn Etholiad Cyffredinol 2001. Galluogodd hyn ni i asesu os oedd hygyrchedd wedi gwella.

Datblygwyd arolwg Etholiadau'n Eithrio i adlewyrchu materion yng Nghymru. Gwnaethom hyn drwy ychwanegu nifer o gwestiynau newydd megis y pellter y mae'n rhaid i bobl deithio i orsaf i bleidleisio.

Fel gyda phob arolwg nid oedd hi'n bosib cynnwys pob cwestiwn yr oeddem am ei ofyn ond ceisiom cadw cydbwysedd i'r cwestiynau i wneud yn siwr eu bod yn adlewyrchu'r ystod eang o faterion hygyrchedd. Cynhwysom flychau sylwadau yn yr arolwg i annog gwirfoddolwyr yr ymgyrch i bwysleisio materion yr oeddent hwy'n feddwl oedd yn bwysig iawn.

Gwirfoddolwyr yr ymgyrch

Casglwyd gwirfoddolwyr yr ymgyrch o rannau eang o'r gymuned. Roedd y rhain yn amrywio o Aelodau Cynulliad ac Aelodau Seneddol i ymgyrchwyr llawr gwlad. Roedd nifer o'r rheini a gymerodd ran wedi ein cynorthwyo gydag ymchwil Etholiadau'n Eithrio blaenorol, neu eu bod yn aelodau Cymru o Rwydwaith Ymgyrchoedd Scope.

Anfonodd DRC Cymru a Cwmpas Cymru yr arolwg i bawb oedd ar eu rhestr bostio a hyrwyddwyd yr ymgyrch yn y wasg.

Prosesu'r ymchwil

Yn ganolog i'r ymgyrch oedd gwefan y gellid mynd iddi. Gallai ymgyrchwyr lawrlwytho arolygon a'r nodiadau canllaw neu roi eu canlyniadau yn uniongyrchol ar-lein. Roedd dau safle yn rhedeg ochr yn ochr: www.pollsapartcymru.org.uk a'r fersiwn Gymraeg www.etholiadauneithio.org.uk. Hefyd cynhyrchwyd yr holl ddefnydd ar bapur yn ddwyieithog ac mewn ffurfiau eraill.

> **'Diolch am roi'r cyfle i mi gymryd rhan yn yr arolwg yma; roedd fy mhrofiad cyntaf fel pleidleisiwr anabl wir yn agoriad llygaid.'**
> Gwerthusiad Defnyddwyr Etholiadau'n Eithrio 2003, Ceredigion

Canlyniadau

Dychwelwyd 363 o arolygon Etholiadau'n Eithrio. Edrychodd y rhain ar 322 o wahanol orsafoedd pleidleisio. Cafodd pob rhan o Gymru sylw a derbyniom ffurflenni'n ôl o bob etholaeth.

Rydym wedi rhagamcanu y defnyddiwyd oddeutu 3,000 o orsafoedd pleidleisio ar gyfer etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol. Felly mae ein canlyniadau yn cwmpasu tua 10% o'r holl orsafoedd pleidleisio.

Hygyrchedd cyffredinol

Gwelodd Etholiadau'n Eithrio bod 77% o'r holl orsafoedd pleidleisio a ddefnyddiwyd yn etholiadau 2003 y Cynulliad yn anhygyrch.

Sut ydym yn mesur hygyrchedd

Ystyrir pob gorsaf bleidleisio ar wahân. Rydym yn ystyried gorsaf bleidleisio yn hygyrch os ydyw'n cyrraedd chwe phrawf syml:

1. Oes mynediad gwastad iddi?
2. Oes yna ramp i wella mynediad, ydi hi wedi ei chynllunio'n addas?
3. Oes mynediad gwastad tu fewn i'r orsaf?
4. Oes digon o le i berson anabl symud o gwmpas?
5. Oes blwch pleidleisio isel?
6. Oes fersiwn print bras o'r papur pleidleisio yn cael ei arddangos?

Roedd ymchwil Etholiadau'n Eithrio blaenorol hefyd angen i orsafoedd pleidleisio fod wedi eu harwyddbostio'n ddigonol Tynnwyd y prawf hwn ar gyfer Etholiadau'n Eithrio 3 gan fod y mwyafrif llethol o orsafoedd pleidleisio yn hawdd i'w canfod.

Ydi hygyrchedd yn gwella?

Yn 2001 gwelodd Etholiadau'n Eithrio fod 66% o orsafoedd pleidleisio Cymru'n anhygyrch, erbyn 2003 roedd hyn wedi codi i 77%. Mae hygyrchedd yn ymddangos fel ei fod yn gwaethygu ar gyfer pleidleiswyr Cymru. Mae hyn yn siomedig iawn.

Roeddem wedi gobeithio y byddem yn gweld cynnydd dramatig mewn hygyrchedd gorsafoedd pleidleisio wrth i ni nesau at Hydref 2004. Dyma'r dyddiad y bydd y rheoliadau yn ymwneud â hygyrchedd corfforol yn dod i rym fel rhan o Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd Rhan III.

Efallai fod rhai ffactorau lleol wedi cynyddu anhygyrchedd gorsafoedd pleidleisio mewn rhai awdurdodau lleol. Roedd dau gyngor yn arbennig o anffodus. Aeth y cwmni yr oeddent yn ei ddefnyddio i ddarparu gorsafoedd pleidleisio symudol hygyrch i'r wal. Nid yw'r problemau hyn fodd bynnag yn esbonio pam fod hygyrchedd wedi gwaethygu yng Nghymru.

Esboniad mwy tebygol yw bod arolwg 2001 wedi tan-ragamcanu y problemau. Yn 2001 derbyniodd Etholiadau'n Eithrio 3 77 o arolygon o Gymru. Efallai mai'r gwir amdani yw fod Etholiadau'n Eithrio yn llawer mwy manwl gywir. Fe archwiliom ragor o orsafoedd pleidleisio mewn rhagor o etholaethau. Wrth grwpio hygyrchedd gorsafoedd pleidleisio yn ôl awdurdodau lleol cyfartaledd yr hygyrchedd oedd 77%.

Pa bynnag ffordd y byddwn yn edrych arno mae hygyrchedd gorsafoedd pleidleisio yng Nghymru yn wael. Methodd un o bob pedwar o'r gorsafoedd pleidleisio a adolygwyd gennym brawf hygyrchedd syml.

'Yn yr etholiad hwn, roedd tair gorsaf bleidleisio yn anhygyrch, defnyddiwyd y rhain droeon er cwynion gennym ni'
Gwerthusiad Defnyddwyr Etholiadau'n Eithrio 2003, Ynys Môn

'Am sawl blwyddyn bum yn cwyno nad oedd fy ngorsaf bleidleisio yn hygyrch. Carafan deithiol fechan ydoedd a phrin gallu mynd i mewn iddi oeddwn i. Roeddwn wrth fy modd pan ddes i bleidleisio eleni a'i bod wedi mynd. Pan ofynnais yn ysgafn lle oedd y garafan dywedwyd ei bod wedi symud i'r ward nesaf'
Gwerthusiad Defnyddwyr Etholiadau'n Eithrio 2003, Bro Morgannwg

'Siaradais gyda'r clerc pleidleisio, roedd hi wedi ei synnu fod yr orsaf bleidleisio wedi ei hail leoli yn yr ysgol i ran llai hygyrch nag arfer.'
Gwerthusiad Defnyddwyr Etholiadau'n Eithrio 2003, Caerffili

'Gofynnwyd i mi os oeddwn am iddynt ddod â'r papur pleidleisio allan i mi! Roedd y tir y tu allan yn anwastad ac yn llawn tyllau gyda darnau o wydr ymhobman.'
Gwerthusiad Defnyddwyr Etholiadau'n Eithrio 2003, Dwyrain Casnewydd

Cydnabu rhai awdurdodau lleol y byddai hygyrchedd yn broblem mewn gorsafoedd pleidleisio a chymryd camau i leihau ei effaith. Sylweddolodd Abertawe na fyddai llawer o'i orsafoedd pleidleisio yn hygyrchedd a chymerasant gamau rhagweithiol.

> **'Rydym wedi hysbysu'r etholwyr o'r problemau hygyrchedd a gofyn iddynt os hoffent ystyried pleidlais bost fel dewis arall. Rwy'n deall na fydd hyn yn dderbyniol wedi Hydref 2003 ond byddai'n well gennyf gyfaddef nawr na wynebu'r problemau ar y dydd. Anfonwyd y llythyr hwn i oddeutu 15,000 o ethowyr a chawsom ymateb da iawn i'r llythyr.'**
> Ymateb gan Dinas a Sir Abertawe

Er nad ydym yn credu fod pleidlais bost yn ddewis arall yn lle gwneud gorsafoedd pleidleisio yn hygyrch, rydym yn croesawu agwedd gyffredinol Abertawe. Rydym yn fodlon eu bod yn cydnabod bod yna broblem a bod yn rhaid ei datrys erbyn Hydref 2004 pan y daw rheoliadau yn ymwneud â hygyrchedd corfforol i adeilad yn dod i rym fel rhan o Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd.

Adolygodd Sir Fynwy yr holl adeiladau oedd i'w defnyddio fel gorsafoedd pleidleisio a hysbysu pleidleiswyr ar eu cerdyn pleidleisio ble yr oeddent yn rhagweld y byddai problemau hygyrchedd.

Cyrraedd yr orsaf bleidleisio

Gofynnodd yr arolwg Etholiadau'n Eithrio am sut y cyrhaeddodd pobl yr orsaf bleidleisio a pha mor bell oedd yn rhaid iddynt deithio. Dyma'r tro cyntaf yr oedd arolwg Etholiadau'n Eithrio wedi holi y cwestiynau hyn. Gwnaethom hyn oherwydd ein bod yn teimlo yng Nghymru y gallai cludiant a phellter i'r orsaf bleidleisio fod yn bwysig pan yn ystyried hygyrchedd cyffredinol.

Nid yw'n syndod fod y mwyafrif o bobl a lenwodd yr holiadur wedi defnyddio car i gyrraedd eu gorsaf bleidleisio. Yn ôl Dangosyddion Cymharol Patrymau Rhanbarthol, dogfen a gyhoeddwyd gan y Swyddfa ar gyfer Ystadegau Cenedlaethol, y gall 70% o gartrefi Cymru gael gafael ar gar.

Cwestiwn arolwg Etholiadau'n Eithrio – Sut gyrhaeddoch chi'r orsaf bleidleisio?

Ar gludiant cyhoeddus	1%
Mewn car	68%
Ar droed / mewn cadair olwyn	31%

Yr hyn sy'n ddiddorol yw fod cyn lleied o bobl wedi defnyddio cludiant cyhoeddus i gyrraedd eu gorsaf bleidleisio. Mewn sawl ardal gallai hyn fod oherwydd ei fod yn llai hwylus na disgwyl am fws neu nad yw llwybr y bws yn mynd heibio'r orsaf bleidleisio. Gall hyn wneud pleidleisio yn anodd os na allwch gael gafael ar gerbyd.

'Mae'r orsaf bleidleisio pen pellaf y pentref. Mae'n hunllef ceisio cyrraedd yno os nad ydych yn gyrru, a dydw i ddim.'
Gwerthusiad Defnyddwyr Etholiadau'n Eithrio 2003, De Clwyd

'I ddefnyddwyr cadair olwyn neu'r henoed sy'n methu cerdded yn bell roedd angen car oherwydd yr allt serth.'
Gwerthusiad Defnyddwyr Etholiadau'n Eithrio 2003, Dwyrain Casnewydd

'Roedd yr orsaf bleidleisio ymhell o bobman a dim gwasanaeth bws i'w gael.'
Gwerthusiad Defnyddwyr Etholiadau'n Eithrio 2003, Preseli Sir Benfro

Cwestiwn arolwg Etholiadau'n Eithrio – pa mor bell yw eich cartref o'r orsaf bleidleisio?

Llai na ½ milltir 57%

Rhwng ½ milltir a milltir 29%

Dros filltir 14%

Roedd dros 40% o bobl oedd wedi gorfod teithio dros ½ milltir i bleidleisio. Roedd yn rhaid i un person deithio dros dair milltir. Dywedodd nifer y gellid gwella hygyrchedd pe bai cludant hygyrch yn cael ei ddarparu rhwng y cartref a'r orsaf bleidleisio. Mae'r gwasanaeth hwn, a ddarparwyd fel trefn a ddarparwyd gan y pleidiau gwleidyddol, yn ymddangos i fod yn llai cyffredin nawr.

'Cynnig cludiant yn arbennig mewn ardaloedd gwledig. Nid yw gwahanol bleidiau gwleidyddol yn ymddangos fel pe baent yn cynnig hyn yn agored mwyach.'
Gwerthusiad Defnyddwyr Etholiadau'n Eithrio 2003, Trefynwy

'Rydw i'n byw yn bell iawn o'r orsaf bleidleisio ac ni allaf ei chyrraedd heb gar. Rhaid i'm brawd fynd a fi yno a dod â fi'n ôl. Byddai'n haws mewn ardaloedd tebyg i'n un i pe bai gorsafoedd pleidleisio symudol. Gallwch ddanfon popeth arall'
Gwerthusiad Defnyddwyr Etholiadau'n Eithrio 2003, Meirionnydd Nant Conwy

Mae cludiant i orsafoedd pleidleisio yn broblem i lawer o bobl anabl ac mae'n rhywbeth y dylid ei ystyried pan yn archwilio addasrwydd gorsafoedd pleidleisio.

Cwestiwn arolwg Etholiadau'n Eithrio - a fydd yna barcio penodol ar gyfer pobl anabl? Bydd 25% Na fydd 75%	Mae parcio'n bwysig i bobl gydag amhariad symud. Heb barcio digonol ar gyfer pobl anabl bydd gorsaf bleidleisio yn dod yn anhygyrch. **'Roedd hi'n amhosib parcio ar lon cefn gwlad gul, roedd yn rhaid i mi adael y car ar briffordd a cherdded i fyny allt go serth am tua 150 o lathenni. Byddai'n amhosib i ddefnyddwyr cadair olwyn a phobl anabl eraill i bleidleisio yma.'** Gwerthusiad Defnyddwyr Etholiadau'n Eithrio 2003, Conwy **'Ar y cyfan roedd yr orsaf bleidleisio'n iawn – dim ond diffyg parcio penodedig fyddai wedi rhwystro pobl gydag amhariadau symud.'** Gwerthusiad Defnyddwyr Etholiadau'n Eithrio 2003, Canol Caerdydd **'Mae'r parcio yn rywsut-rywsut ar hyd ymyl gwelltir agored. Anwastad, llithrig a llaith dan droed. Ni ellid fynd i mewn heb gymorth a byddai'n hollol amhosib i ddefnyddwyr cadair olwyn.'** Gwerthusiad Defnyddwyr Etholiadau'n Eithrio 2003, Bro Morgannwg Dylai'r rhan fwyaf o adeiladau cyhoeddus gael llefydd cadw ar gyfer pobl anabl i barcio'n agos i'r fynedfa. Mae'n bwysig fod parcio hygyrch wedi ei gynnwys mewn unrhyw werthusiad hygyrchedd i orsaf bleidleisio. Pan fo nifer cyfyngedig o fannau parcio dylid eu cadw ar gyfer pobl anabl.

Lleoliad gorsafoedd pleidleisio

Gofynnodd arolwg Etholiadau'n Eithrio i wirfoddolwyr yr ymgyrch i nodi mewn pa fath o adeilad yr oedd yr orsaf bleidleisio.

Math o adeilad	2003 (Cymru)	2001 (DG)
Ysgol	24%	26%
Canolfan Gymunedol	41%	38%
Neuadd y Dref	2%	1%
Llyfrgell	1%	3%
Man Addoli	12%	10%
Caban Symudol	3%	3%
Arall	17%	19%

Roedd y canlyniadau o Gymru yn 2003 ar y cyfan yn adlewyrchu'r mathau o adeiladau a ddefnyddiwyd ledled y DG.

Roedd adeiladau 'eraill' a ddefnyddiwyd fel gorsafoedd pleidleisio yn cynnwys neuaddau Ffermwyr Ifanc, canolfannau celfyddydau, clybiau gweithwyr, canolfannau hamdden, coleg addysg bellach, 'cyfleuster adloniant wedi dirywio' ac ystafell gyfarfod llain fowlio. Roedd yna hefyd ganran uchel o neuaddau eglwys a neuaddau pentref. Roeddem yn siomedig nad oedd amrywiaeth ehangach o leoliadau, yn arbennig adeiladau mwy modern.

Y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd

O fis Hydref 2004 bydd y mwyafrif o'r gorsafoedd pleidleisio hyn yn dod o dan ddyletswyddau Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd yn ymwneud â hygyrchedd corfforol i adeiladau. Bydd yn rhaid i berchnogion yr adeiladau hyn wneud addasiadau rhesymol i wneud yn siwr eu bod y hygyrch i bobl anabl.

Nid yw carafannau'n hygyrch

Mae'n hynod annhebygol y bydd carafan deithiol yn hygyrch byth. Ymddengys yn amlwg ond byddwn yn argymell y dylai awdurdodau lleol stopio defnyddio carafannau fel gorsafoedd pleidleisio.

> **'Yn yr orsaf bleidleisio hon byddech wedi gorfod dod â'r holl ddefnyddiau a'r bocs pleidleisio allan o'r garafan er mwyn i berson corfforol anabl bleidleisio.'**
> Gwerthusiad Defnyddwyr Etholiadau'n Eithrio 2003, Caerffili

> **'Faint yn fwy anhygyrch allwch fod? Blwch pleidleisio isel? Dim blwch pleidleisio o gwbl – nid yw'n ffitio tu mewn i'r garafan deithiol!!!'**
> Gwerthusiad Defnyddwyr Etholiadau'n Eithrio 2003, Bro Morgannwg

Cyrraedd i mewn orsaf bleidleisio

Gofynnom i bobl yn llenwi'r arolwg pa mor anodd fyddai wedi bod i berson anabl fynd i mewn i'r orsaf bleidleisio.

Cwestiwn arolwg Etholiadau'n Eithrio - oes mynediad gwastad i'r orsaf bleidleisio? Oes 46% Nac oes 54%	Nid oedd gan dros hanner y gorsafoedd pleidleisio fynediad gwastad. Mae hwn yn ofyniad sylfaenol a syml sy'n arfer cyffredin ar gyfer y mwyafrif o siopau, bariau ac adeiladau cymunedol. Mae peidio â chael mynediad gwastad yn eithrio pleidleiswyr. Y grŵp mwyaf amlwg o bobl yw defnyddwyr cadeiriau olwyn ond dim ond y dechrau yw hyn. Mae pobl gydag amhariadau symud yn cynnwys nifer o bobl hŷn, sydd hefyd yn cael anhawster gyda grisiau. **'Roedd gŵr anabl yn pleidleisio pan lenwais yr arolwg – rhoddodd ei gynorthwy-ydd help iddo i fyny'r gris, ni fyddai wedi gallu gwneud hyn ar ei ben ei hun.'** Gwerthusiad Defnyddwyr Etholiadau'n Eithrio 2003, Conwy **'Dywedodd staff eu bod wedi derbyn sylwadau am ansefydlogrwydd y grisiau cul a'u heffaith ar bobl gyda chluniau, pen-gliniau newydd, a'r boblogaeth sy'n heneiddio'n gyffredinol.'** Gwerthusiad Defnyddwyr Etholiadau'n Eithrio 2003, Bro Morgannwg **'Roedd yn rhaid i mi ofyn i berson oedd yn pasio i fynd i ofyn i'r staff pleidleisio am gymorth, gan fod gris i fyny i'r fynwent, felly nid oeddwn yn gallu mynd unlle'n agos i'r orsaf bleidleisio. Cefais fy nghodi i fyny'r gris honno a'r gris i'r orsaf bleidleisio. Sylwad un o'r staff oedd 'ni wnaethom archebu ramp eleni'.'** Gwerthusiad Defnyddwyr Etholiadau'n Eithrio 2003, Ceredigion

Cwestiwn arolwg Etholiadau'n Eithrio - Os oedd ramp, oedd hi wedi ei chynllunio'n briodol? Oedd 57% Nac oedd 43%	Gall rampiau wneud adeiladau hŷn yn llawer mwy hygyrch ond rhaid iddynt fod yn ddiogel. Nid oes pwrpas defnyddio ramp os nad yw hi'n gweithio. Mae rampiau sydd wedi eu cynllunio'n wael yn rhwystrau mynediad ac yn beryglus. Dylai rampiau gael canllaw bob amser. **'Symudodd staff yr orsaf bleidleisio y ramp. Mae hyn yn edrych fel creu rhwystr ond fe ddylech fod wedi gweld y ramp. Roedd hi'n beryglus dros ben ac ni ddylid fod byth wedi ei defnyddio Roeddwn yn siomedig iawn.'** Gwerthusiad Defnyddwyr Etholiadau'n Eithrio 2003, Dyffryn Clwyd **'Ystyriwyd y ramp yn anniogel gan staff, a dyna'r rheswm pam nad oedd yn ei lle.'** Gwerthusiad Defnyddwyr Etholiadau'n Eithrio 2003, Gŵyr Dylai rampiau fod yn gadarn a sefydlog gyda graddiant isel. Fel arfer dylent fod yn barhaol ond os ydynt dros dro dylent gynnig yr un lefel o fynediad â rhai parhaol. **'Roedd ramp dros dro ond nid ydoedd wedi cael ei gosod yn ei lle. Pan ofynnais y rheswm am hyn, yr ateb a gefais oedd ei bod yn mynd o ffordd pobl nad oedd yn anabl.'** Gwerthusiad Defnyddwyr Etholiadau'n Eithrio 2003, Trefynwy Dylid cadw rampiau'n glir fel bod pobl anabl yn gallu eu defnyddio **'Roedd daliwr blodau mawr 4tr x 3tr ar y ramp i fyny i'r prif ddrws fyddai wedi gwneud mynediad i gadeiriau olwyn yn anodd ac roedd yn beryglus i bleidleiswyr oedd ag amhariad gweledol.'** Gwerthusiad Defnyddwyr Etholiadau'n Eithrio 2003, Conwy

Cwestiwn arolwg Etholiadau'n Eithrio - Oes mynedfa ar wahân i bobl anabl?

Oes	13%
Nac oes	87%

'Cafodd yr ysgol ramp wedi ei hadeiladu wythnos diwethaf yn arbennig ar gyfer yr etholiadau ond roedd yn rhaid mynd drwy lwybr mwdlyd, anwastad o laswellt yn llawn sbwriel i gyrraedd y giât ar gyfer y ramp. Roedd staff wedi cloi'r giât gan nad oeddent yn cymryd cyfrifoldeb am neb yn defnyddio'r llwybr.'
Gwerthusiad Defnyddwyr Etholiadau'n Eithrio 2003, Cwm Cynon

Rydym yn ceisio canfod os oedd yn rhaid i bobl anabl ddefnyddio mynedfa arall. Mae hyn oherwydd ei fod fel arfer yn golygu mynedfa ochr neu ddrws cefn. Efallai fod mynediad gwastad i hwn ond fe all fod yn anodd ei gyrraedd.

'Roedd y man ar gyfer cadeiriau olwyn oddi wrth y prif ddrws (150m) wedi ei gloi a neb yno. Ni fyddwn wedi gallu mynd i mewn pe bawn ar fy mhen fy hun am nad oedd modd hysbysu rhywun yn y prif fynedfa..'
Gwerthusiad Defnyddwyr Etholiadau'n Eithrio 2003, Aberhonddu a Sir Frycheiniog

'Gofynnais os oedd mynedfa arall i'r orsaf bleidleisio. Fel arfer gallai defnyddwyr cadair olwyn fynd trwy'r fynedfa ochr a thrwy'r prif neuadd, ond nid oedd yn agored heddiw gan fod drama yn y prif neuadd!!'
Gwerthusiad Defnyddwyr Etholiadau'n Eithrio 2003, Pontypridd

Pan fo hynny'n bosib dylai fod un mynedfa ar gyfer pawb sef yr un hygyrch. Os nad yw'n gyfleus ar gyfer pleidleisiwr nad sy'n anabl pam ddylai person anabl gael ei orfodi i deithio y pellter ychwanegol at ddrws arall?

Tu fewn i'r orsaf bleidleisio

Nid dim ond y fynedfa i'r orsaf bleidleisio sy'n rhaid bod yn hygyrch. Rhaid i'r pleidleisiwr fynd o'r drws i'r bocs pleidleisio. Ar y cyfan roedd hygyrchedd da tu fewn i orsafoedd pleidleisio Cymru.

Cwestiwn arolwg Etholiadau'n Eithrio - Oes mynediad gwastad tu fewn i'r adeilad o'r fynedfa i'r blwch pleidleisio? Oes 90% Nac oes 10%	**'Roedd gan yr un gris i'r iard ramp ond byddai'n rhaid i ddefnyddiwr cadair olwyn fynd i fyny dwy arall tu fewn i'r adeilad er mwyn pleidleisio.'** Gwerthusiad Defnyddwyr Etholiadau'n Eithrio 2003, Gogledd Caerdydd Gall grisiau neu rampiau sydd heb eu cynllunio'n iawn fod yn fwy o berygl tu fewn i adeilad oherwydd nad ydynt wedi eu goleuo'n dda yn aml. Pryd bynnag fo hynny'n bosib dylai'r orsaf bleidleisio fod cyn agosed â phosib i'r brif fynedfa. Yn aml gellir symud y mathau hyn o rwystrau. **'Fe fyddai'r mynediad yn wastad oni bai am fat croeso.'** Gwerthusiad Defnyddwyr Etholiadau'n Eithrio 2003, Caerffili
Cwestiwn arolwg Etholiadau'n Eithrio- Ydych chi'n credo fod digon o ofod i bobl anabl fynd o gwmpas yr adeilad yn hawdd (e.e. lled coridorau a drysau)? Ydw 77% Nac ydw 23%	Gall coridorau a drysau cul wneud gorsafoedd pleidleisio yn anhygyrch. Mae defnyddwyr cadair olwyn angen gofod i symud o gwmpas ond gall rhwystrau fod yn beryglus i nifer o bobl eraill gydag amhariadau symud a gweld. **'Ystafell fechan wedi ei rhannu'n dair gan resi o gadeiriau wedi eu pentyrru, bron yn anhygyrch i bobl anabl, hefyd.'** Gwerthusiad Defnyddwyr Etholiadau'n Eithrio 2003, Gorllewin Caerdydd **'Roedd y drws i'r orsaf bleidleisio yn gul gyda gwefus fechan oedd wedi achosi problemau y diwrnod hwnnw i bleidleiswyr yn defnyddio ffyn/cymorth cerdded. Gofod cul iawn rhwng byrddau oedd wedi eu gosod i'r naill ochr.'** Gwerthusiad Defnyddwyr Etholiadau'n Eithrio 2003, Conwy

	‘Mynedfa ardderchog – ramp parhaol yn cael ei ddefnyddio gan bawb. Ffordd bell i’r neuadd bleidleisio ond coridor llydan a llawr da tan y 10 troedfedd olaf ac am ddim rheswm mae gris bychan yn ymddangos heb ramp dros dro!! Anghredadwy!!!!’ Gwerthusiad Defnyddwyr Etholiadau’n Eithrio 2003, Gorllewin Abertawe
Cwestiwn arolwg Etholiadau’n Eithrio - Oes seddi i bobl orffwyso? Oes 69% Nac oes 31%	Mae darparu seddi yn arfer dda. Mae’n ffordd syml o wella hygyrchedd gorsafoedd pleidleisio gan ei fod yn rhoi cyfle i bobl gydag amhariad symud i orffwys unai cyn neu wedi bwrw’u pleidlais. Hyd yn oed yn y gorsafoedd mwyaf hygyrch bu’n rhaid i bleidleiswyr fynd trwy amgylchedd anhygyrch i fynd allan.
Cwestiwn arolwg Etholiadau’n Eithrio- Ydi tu fewn i’r blwch pleidleisio wedi ei oleuo’n dda? Ydi 71% Nac ydi 29%	Mae’n bwysig fod tu mewn i flychau pleidleisio wedi ei goleuo’n dda gan fod golau isel yn creu rhwystrau mawr i nifer o bobl gydag amhariad gweledol. Mae gwella’r golau mewn gorsaf bleidleisio yn aml yn gallu bod cyn symled â phwyso swits. **‘Pan ofynnais pam nad oedd y golau ymlaen dywedwyd wrthyf fod hyn am resymau amgylcheddol. Pan ddywedais wrthynt nad oedd fy ngwraig yn gallu darllen y papur pleidleisio heb fod y golau ymlaen, fe droeon y golau ymlaen ac yna ymddiheuro’n ddi-baid.’** Gwerthusiad Defnyddwyr Etholiadau’n Eithrio 2003, Pen-y-bont ar Ogwr **‘Angen gwell goleuo.’** Gwerthusiad Defnyddwyr Etholiadau’n Eithrio 2003, Alun a Glannau Dyfrdwy

Materion hygyrchedd ar gyfer pobl ag amhariad clyw

Daeth nifer o gynghorau â dolenni clyw symudol i orsafoedd pleidleisio. Croesawyd hyn fel datblygiad allai gynorthwyo hygyrchedd y broses bleidleisio ar gyfer pobl gydag amhariad clywedol.

Ble y darparwyd dolenni clyw roedd staff yn awyddus iawn i'w dangos.

> **'Gwelodd y clerc pleidleisio fi'n llenwi'r arolwg a gofynnodd os oeddwn am weld y ddolen glyw.'**
> Gwerthusiad Defnyddwyr Etholiadau'n Eithrio 2003, Dwyrain Abertawe

Gall sŵn leihau hygyrchedd gorsafoedd pleidleisio

> **'Caban symudol wedi ei osod ar ochr prifffordd. Roedd y generadur petrol yn swnllyd iawn, gan effeithio ar drosglwyddiad llai, gwael ar gyfer pobl gydag amhariad clywedol.'**

Gwerthusiad Defnyddwyr Etholiadau'n Eithrio 2003, Aberafan

Pleidleisio

Edrychodd yr arolwg Etholiadau'n Eithrio ar pa mor hawdd ydoedd i bobl anabl fwrw'u pleidlais.

Cwestiwn arolwg Etholiadau'n Eithrio - Oes blwch pleidleisio isel?

Oes	63%
Nac oes	37%

Mae blychau pleidleisio isel yn addasiad hygyrchedd pwysig ac a ddylai fod ar gael ymhob gorsaf bleidleisio. Er fod staff gorsafoedd pleidleisio yn aml yn ddyfeisgar mewn dod o hyd i arwynebau eraill ar gyfer pleidleiswyr cadair olwyn nid yw'n ateb hir dymor priodol.

'Roedd silffoedd ysgrifennu eithaf uchel yn y blychau pleidleisio. Gofynnais pam nad oedd un addas ar gyfer person yn eistedd mewn cadair olwyn – cefais fy sicrhau y byddai un ond nad oedd wedi cyrraedd.'
Gwerthusiad Defnyddwyr Etholiadau'n Eithrio 2003, Trefynwy

'Nid oedd y blychau pleidleisio isel mewn man amlwg, felly ddibynnais ar gymorth gan staff.'
Gwerthusiad Defnyddwyr Etholiadau'n Eithrio 2003, De Caerdydd a Phenarth

'Nid oedd silff nac wyneb gwastad i roi'r papur pleidleisio arno, nid oedd bwrdd wedi ei ddarparu.'
Gwerthusiad Defnyddwyr Etholiadau'n Eithrio 2003, Aberhonddu a Sir Frycheiniog

Cwestiwn arolwg Etholiadau'n Eithrio - Oes fersiwn print bras o'r papur pleidleisio ar gael i bleidleiswyr edrych arno?

Oes	77%
Nac oes	23%

Mae hwn yn ofyniad cyfreithiol ond eto nid oedd gan bron i chwarter y gorsafoedd pleidleisio hysbysiadau brint bras wedi eu harddangos yn amlwg.

Mae hysbysiadau print bras yn bwysig i bobl gydag amhariadau gweledol a chyfathrebu a gallant ganiatáu i rywun i bleidleisio'n annibynnol. Mae gosod papurau pleidleisio print bras mewn mannau na all pleidleiswyr eu gweld yn eu gwneud yn ddiwerth Fe'i bwriedir i gael eu darllen o agos.

	‘Papur idleisio print bras yn uchel ar wal.’ Gwerthusiad Defnyddwyr Etholiadau’n Eithrio 2003, Trefynwy
Cwestiwn arolwg Etholiadau’n Eithrio – Ydi’r templed cyffyrddol ar gael? Ydi 82% Nac ydi 18%	Mae hwn eto yn ofyniad cyfreithiol. Gall templedi cyffyrddol gynorthwyo darllenwyr Braille i bleidleisio’n annibynnol ac maent yn dyngedfennol i wneud yn siwr fod gan bobl ddall a rhai ag amhariad gweledol yr un hawliau democrataidd â phawb arall. Pan na fydd templedi cyffyrddol yn amlwg ar gael gall hyn fod oherwydd lefel hyfforddiant y mae staff gorsafoedd pleidleisio wedi ei gael i’w defnyddio.
Cwestiwn arolwg Etholiadau’n Eithrio- Oes bocs pleidleisio isel? Oes 65% Nac oes 35%	Bocs pleidleisio isel yw un sydd wedi ei roi ar gadair yn hytrach nag ar fwrdd. Ynghyd â rhoi’r golau ymlaen dyma’r ffordd symlaf o wella hygyrchedd gorsafoedd pleidleisio. Nid yw’n costio dim a dylai ddigwydd ymhob gorsaf bleidleisio. Mae hyn yn galluogi pobl na all gyrraedd bocsys pleidleisio a osodir ar fwrdd y cyfle i bleidleisio’n annibynnol. Arfer dda arall yw gwneud yn siwr fod y twll ar gyfer rhoi’r papurau pleidleisio drwyddo wedi ei farcio’n glir. **‘Nid oedd paent gwyn o amgylch yr hollt yn y bocs pleidleisio a olygodd fod yn rhaid i mi gael cymorth i ddod o hyd iddo.’** Gwerthusiad Defnyddwyr Etholiadau’n Eithrio 2003, Caerffili **‘Staff yn gymwynasgar ond bocsys pleidleisio yn uchel iawn.’** Gwerthusiad Defnyddwyr Etholiadau’n Eithrio 2003, Conwy

Staff yr orsaf bleidleisio

Gofynnodd arolwg Etholiadau'n Eithrio am brofiadau pobl o staff yr orsaf bleidleisio. Mae hyn yn bwysig oherwydd bod angen i staff gorsaf bleidleisio allu ymateb i anghenion penodol pleidleiswyr anabl.

Oedd staff yr orsaf bleidleisio'n groesawgar a chymwynasgar? Oedd 89% Nac oedd 10%	Roedd mwyafrif llethol o staff y gorsafoedd pleidleisio yn gyfeillgar iawn ac yn gymwynasgar. Gwnaeth nifer yr hyn a allent i wella hygyrchedd ar y diwrnod. **'Staff yn ymwybodol iawn ac yn bryderus bod y ramp yn eithaf serth a'r drws yn gul iawn, ceisio cadw llygaid am bobl a allai fod angen cymorth.'** Gwerthusiad Defnyddwyr Etholiadau'n Eithrio 2003, Conwy **'Roedd y staff yn hynod gymwynasgar.'** Gwerthusiad Defnyddwyr Etholiadau'n Eithrio 2003, Dwyrain Casnewydd **'Staff cyfeillgar – ymwybodol iawn o nifer o anawsterau. Cynorthwyodd staff bobl oedd yn ansicr drwy esbonio symbolau a phleidiau, cynigwyd chwydd wydr.'** Gwerthusiad Defnyddwyr Etholiadau'n Eithrio 2003, Pontypridd Dywedodd rhai y byddent yn cynorthwyo i wella hygyrchedd yn y dyfodol. **'Staff yn gyfeillgar iawn ac yn cydweithredu wrth ateb fy nghwestiynau. Awyddus iawn i wneud democratiaeth yn fwy hygyrch.'** Gwerthusiad Defnyddwyr Etholiadau'n Eithrio 2003, Gogledd Caerdydd Roedd nifer o wirfoddolwyr ymgyrch yn credu fodd bynnag y dylai pobl sy'n gweithio mewn gorsafoedd pleidleisio gael hyfforddiant cydraddoldeb anabledd sylfaenol.

	‘Roedd staff yn gyfeillgar ac yn gymwynasgar ond roeddwn yn teimlo eu bod angen hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o anabledd.’ Gwerthusiad Defnyddwyr Etholiadau’n Eithrio 2003, Gogledd Caerdydd Roedd hyn eisoes yn cael ei wneud mewn rhai etholaethau. **‘Dywedasant eu bod wedi derbyn hyfforddiant ar gynorthwyo pobl ag amhariad gweledol a defnyddwyr cadair olwyn a’i fod yn ddefnyddiol iawn. Roeddent yn sicr yn ymwybodol iawn o sut y gallant helpu a pha gymhorthion oedd ganddynt.’** Gwerthusiad Defnyddwyr Etholiadau’n Eithrio 2003, Bro Morgannwg

Materion eraill hygyrchedd

Nododd arolwg Etholiadau'n Eithrio sawl mater drwy'r adran sylwadau.

Papur Pleidleisio

Mynegwyd pryderon am y papur pleidleisio rhanbarthol. Y ddau fater a ailgododd oedd ei hyd a'r esboniadau o sut i'w ddefnyddio i bleidleisio.

> **'Roedd y papur pleidleisio rhanbarthol yn rhy fawr i ffitio'n gyfforddus ar y platfform yn y blwch pleidleisio. Mae'n bosib y gallai hyn fod wedi gwneud defnyddio'r offer Braille yn anodd iawn. Roedd maint y papur pleidleisio rhanbarthol yn ei wneud yn anodd i'w bostio yn y bocs pleidleisio.'**
> Gwerthusiad Defnyddwyr Etholiadau'n Eithrio 2003, Pontypridd

> **'Symleiddio papurau pleidleisio rhanbarthol a'r esboniad o'r system bleidleisio.'**
> Gwerthusiad Defnyddwyr Etholiadau'n Eithrio 2003, Aberafan

Yr Iaith Gymraeg

Mae pobl anabl yn adlewyrchu'r amrywiaeth yng Nghymru. Fel siaradwyr Cymraeg eraill mae pobl anabl yn disgwyl bod y deunydd yn cael ei ddarparu yn eu hiaith ddewisedig a'i fod yn hygyrch.

Mae sut y dylunnir hyn yn bwysig. Mae nifer o bobl yn ei gweld hi'n anodd pan fo Cymraeg a Saesneg am yn ail. Mae'n well petai'r ieithoedd yn cael eu cadw ar wahân.

> **'Achosodd gyfosodiad y ddwy iaith gymhlethdod. Gwell cael colofnau ar wahân.'**
> Gwerthusiad Defnyddwyr Etholiadau'n Eithrio 2003, Caerffili

Pleidlais bost

Mae gan bobl anabl ystod o farn ar bleidleisiau post a chaiff hyn ei adlewyrchu yn yr ymatebion a gawsom i'n harolwg.

> **'Pleidleisio post i bawb!'**
> Gwerthusiad Defnyddwyr Etholiadau'n Eithrio 2003, De Clwyd

> **'Mae pleidlais bost yn ddewis realistig arall i'r anabl cyn belled â'i fod ar gael mewn ffurfiau eraill. Byddai'n well gennyf weld adnoddau penodol yn cael eu rhoi i rywbeth 365 o ddyddiau'r flwyddyn na phum munud y flwyddyn neu well byth ar ofal iechyd.'**
> Gwerthusiad Defnyddwyr Etholiadau'n Eithrio 2003, Trefynwy

> **'Am y tro cyntaf erioed fe ddewisiad bleidlais bost, ond ni wnaf hynny yn y dyfodol. Fel ag y gofynnwyd i mi dychwelais fy mhapurau pleidleisio sawl diwrnod cyn dyddiad yr etholiad ac wedi hynny derbyniais bamffledi gan bob plaid – rhy hwyr ar gyfer unrhyw bosibilrwydd neu i ddylanwadu ar fy mhleidlais.'**
> Gwerthusiad Defnyddwyr Etholiadau'n Eithrio 2003, Rhondda

> **'Mae pleidleisiau post hefyd yn ffordd dda iawn i gynorthwyo pobl hŷn ac anabl i bleidleisio – dylai gael mwy o gyhoeddusrwydd fel y gŵyr pawb ei fod yn ddewis.'**
> Gwerthusiad Defnyddwyr Etholiadau'n Eithrio 2003, Gogledd Caerdydd

Fel mesur interim ymgyrchodd Etholiadau'n Eithrio dros allu defnyddio pleidlais bost mewn unrhyw etholiad. Rhoddodd Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000 y dewis i bawb (anabl a dim yn anabl) i bleidleisio drwy'r post os dyna'u dymuniad.

Edrychodd Etholiadau'n Eithrio 3 ar farn pobl anabl ar bleidlais bost. Gwelodd ei bod yn well gan 53% o bobl anabl bleidleisio'n bersonol. Mynegwyd amrediad o farn. Mae rhai'n dymuno defnyddio pleidlais bost; mae eraill am bleidleisio ar y diwrnod. Fe allai hygyrchedd gwael i orsafoedd pleidleisio fod y rheswm pan fod yn well gan rai pobl anabl bleidleisio drwy'r post.

Fodd bynnag ni ellir defnyddio pleidlais bost fel dewis arall ar gyfer gwneud gorsafoedd pleidleisio'n hygyrch yn yr hir dymor. Mae hyn oherwydd ei fod yn cynnig gwasanaeth israddol i bobl anabl yn cyfyngu ar eu dewis o ddulliau pleidleisio ac yn gwneud iddynt bleidleisio'n gynharach na phawb arall.

Nid yw pleidleisio drwy'r post yn ddull cwbl hygyrch o bleidleisio. Mae iddo nifer o rwystrau cynhenid a allai rwystro person anabl rhag cael hygyrchedd iddo. Un amlwg o'r rhain yw pobl gydag amhariad gweledol ond mae hefyd yn cynnwys nifer o bobl gydag amhariadau cyfathrebu, niwrolegol, dysgu a chydsymud.

Rhaid i bleidlais bost barhau'n ddewis yn hytrach na rhywbeth y mae'n rhaid i bobl anabl ei ddefnyddio i bleidleisio.

Sut y gellir gwella hygyrchedd

Gofynnom i bobl oedd yn llenwi arolwg Etholiadau'n Eithrio am eu syniadau ynglŷn â sut y gallai hygyrchedd gael ei wella.

Fformat a chofrestru pleidleiswyr

Credai nifer o bobl y gellid gwella cofrestriad pobl ar ddeunydd etholiad.

> **'Gwybodaeth yn safonol mewn 14 pwynt ac ar gael mewn fformatau hygyrch.'**
> Gwerthusiad Defnyddwyr Etholiadau'n Eithrio 2003, Canol Caerdydd

> **'Os na wyddir am ofynion hygyrchedd pleidleiswyr yna dylai'r fformat safonol fod yn brint bras, gan ddefnyddio canllawiau argraffu clir a dylai fod amryw o fanylion cyswllt (e.e. ffôn, ffôn testun, ffacs, ebost a chyfeiriad post) i bobl i gysylltu â'r adran etholiadol, am gymorth neu fformatau eraill.'**
> Gwerthusiad Defnyddwyr Etholiadau'n Eithrio 2003, Gogledd Caerdydd

> **'Lluniau i rai na all ddarllen.'**
> Gwerthusiad Defnyddwyr Etholiadau'n Eithrio 2003, Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr

> **'Yn hytrach na gorfod darllen y print mân, sydd fel arfer yn cuddio ar waelod y dudalen, dylai'r fformatau eraill sydd ar gael gael eu rhestru ar frig y dudalen gyntaf mewn print priodol ei faint. Dylai fod ar gael yn hawdd, dimond er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth.'**
> Gwerthusiad Defnyddwyr Etholiadau'n Eithrio 2003, De Clwyd

> **'Pan fyddwn yn cofrestru ar gyfer y gofrestr etholiadol dylai fod cyfle i ofyn am ddeunydd mewn print bras,**

Braille, ar dâp sain ac yn yr iaith o'ch dewis.'
Gwerthusiad Defnyddwyr Etholiadau'n Eithrio 2003, Trefynwy

'Cynnig cymorth gyda'r ffurflen gofrestru ar gyfer pobl sydd ag amhariad gweledol a clyw.'
Gwerthusiad Defnyddwyr Etholiadau'n Eithrio 2003, Castell-nedd

'Manylion ar gael ar dâp sain ar gais.'
Gwerthusiad Defnyddwyr Etholiadau'n Eithrio 2003, Gorllewin Abertawe

'Mae angen edrych ar y mater o bobl gydag anableddau dysgu yn byw mewn llety aml-ddeiliadaeth. Yn aml nid oes system ar gyfer gwneud yn siwr bod pob preswyliwr yn mynd ar y gofrestr etholiadol.'
Gwerthusiad Defnyddwyr Etholiadau'n Eithrio 2003, Pen-y-bont ar Ogwr

Hygyrchedd i orsafoedd pleidleisio

Roedd nifer o sylwadau am wella hygyrchedd. Roedd mwyafrif o'r rhain eisiau newid lleoliad.

'Gwneud yn siwr fod pob lleoliad pleidleisio yn gwbl hygyrch i bobl anabl beth bynnag yr amhariad sydd ganddynt. Holi natur yr anabledd ar ffurflenni cofrestru fel y gellir cynnig y cymorth cywir.'
Gwerthusiad Defnyddwyr Etholiadau'n Eithrio 2003, Gorllewin Clwyd

'Defnyddiwch adeiladau mwy hygyrch. Mae'n syml.'
Gwerthusiad Defnyddwyr Etholiadau'n Eithrio 2003, Pontypridd

'Mwy o arwyddion ar y ffordd a thu allan i ddynodi gorsaf bleidleisio. Hysbysebwch y ffaith bod etholiadau'n cael eu cynnal yn y lleoliad cyn y dyddiad – drwy arwyddion ffyrdd, papur lleol/cylchlythyr plwyf, mewn siopau leol ayb.'
Gwerthusiad Defnyddwyr Etholiadau'n Eithrio 2003, Ceredigion

'Lleolwch orsafoedd pleidleisio mewn lleoliad mwy diogel.'
Gwerthusiad Defnyddwyr Etholiadau'n Eithrio 2003, Aberafan

‘Rhaid i etholiadau yn y dyfodol gydymffurfio’n llwyr gyda’r DDA.’
Gwerthusiad Defnyddwyr Etholiadau’n Eithrio 2003, Gorllewin Casnewydd

‘Rydw i wedi gweld lluniau ar y teledu o orsafoedd pleidleisio mewn ardaloedd eraill mewn archfarchnadoedd ayb. Byddai hyn yn llawer gwell gan fod y rhain eisoes yn hygyrch (gan amlaf) i ddefnyddwyr cadair olwyn.’
Gwerthusiad Defnyddwyr Etholiadau’n Eithrio 2003, Pontypridd

‘Gadewch i orsafoedd pleidleisio ddyfod ataf i. Pam na ellid cael gorsafoedd pleidleisio symudol?’
Gwerthusiad Defnyddwyr Etholiadau’n Eithrio 2003, Torfaen

‘Beth am bleidleisio “drive-through” (fel McDonalds)?’
Gwerthusiad Defnyddwyr Etholiadau’n Eithrio 2003, Alun a Glannau Dyfrdwy

Technoleg

Credai rhai pobl fod harneisio technoleg yn ddewis da.

‘Byddai pleidleisio adref – gydag ebost/rhyngrwyd er engrhaifft - o gymorth.’
Gwerthusiad Defnyddwyr Etholiadau’n Eithrio 2003, Blaenau Gwent

‘Mwy o wybodaeth am bleidleisio ar gael ar y rhyngrwyd .’
Gwerthusiad Defnyddwyr Etholiadau’n Eithrio 2003, Gorllewin Caerdydd

‘Caniatáu i bobl bleidleisio ar-lein neu dros y ffôn.’
Gwerthusiad Defnyddwyr Etholiadau’n Eithrio 2003, Gŵyr

Argymhellion

Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

- Parhau i fonitro hygyrchedd etholiadau
- Cynnwys pobl anabl mewn prosiectau o'r newydd wedi eu hanelu ar gynyddu cyfranogiad grwpiau o'r cyhoedd sydd wedi eu tan-gynrychioli mewn bywyd cyhoeddus a chymuned.

Llywodraeth Leol:

Y sylfaeni

- Peidiwch â defnyddio carafannau teithiol nac unrhyw orsaf bleidleisio arall sydd yn amlwg yn anhygyrch fel gorsafoedd pleidleisio.
- Gwnewch yn siwr bod gwelliannau syml yn cael eu gwneud; defnyddiwch flychau a bocsys pleidleisio isel, trowch y golau ymlaen mewn gorsafoedd pleidleisio, gwnewch yn siwr fod papurau pleidleisio print bras yn cael eu harddangos ar uchder darllenadwy.
- Sicrhewch ddiogelwch pleidleiswyr (er enghraifft, peidiwch â defnyddio ramp dros dro amhriodol).
- Cwblhewch restr wirio Etholiadau'n Eithrio ar bob gorsaf bleidleisio cyn yr etholiad nesaf.

Cynllunio hygyrchedd

- Aseswch hygyrchedd pob gorsaf bleidleisio. Dylid creu cynllun gweithredu er mwyn gwneud yn siwr bod holl orsafoedd pleidleisio presennol yn hygyrch erbyn yr Etholiad Cyffredinol nesaf.
- Ceisiwch gyngor pobl anabl lleol, mudiadau pobl anabl a swyddogion gorsafoedd pleidleisio i wneud yn siwr fod datrysiadau hygyrchedd yn briodol ar gyfer anghenion pobl anabl.

Hyfforddiant cydraddoldeb anabledd

- Dylai holl staff y gorsafoedd pleidleisio gael hyfforddiant cydraddoldeb anabledd gan gynnwys hyfforddiant llawn mewn defnyddio cymhorthion fel templed cyffyrddol ac addasiadau eraill.

Hygyrchedd corfforol

- Hydref 2004 yw'r dyddiad olaf ar gyfer cydymffurfio gyda Rhan III o'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd (DDA), sy'n datgan bod yn rhaid i adeiladau sy'n darparu gwasanaeth cyhoeddus wneud newidiadau corfforol rhesymol i wneud yn siwr eu bod yn hygyrch i bobl anabl. Dylai bob Awdurdod Lleol anelu i fod wedi gwneud y newidiadau hyn ymhell cyn y dyddiad olaf yma. Ble nad awdurdodau lleol sy'n berchen ar yr adeiladau y maent yn eu defnyddio fel gorsaf bleidleisio dylent hysbysu'r perchnogion o'u hymrwymiadau dan y DDA.
- Dylai Awdurdodau Lleol anelu i osod rampiau parhaol wedi eu cynllunio'n dda yn lle rampiau dros dro fel mynediad i adeiladau cyn gynted â phosib
- Defnyddio adeiladau eraill fel gorsafoedd pleidleisio pan yn briodol

Fformatau

- Cynhyrchu deunydd cofrestru pleidleiswyr a gwybodaeth arall i bleidleiswyr mewn amrediad o fformatau. Rhoi cyhoeddusrwydd i'r ffaith eu bod ar gael.

Canlyniadau

Gwelodd gwerthusiad hygyrchedd etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 1 Mai 2003 bod tair allan o bob pedair gorsaf bleidleisio a defnyddiwyd yn anhygyrch. Roedd yn rhaid i bleidleiswyr bleidleisio yn y stryd neu'r maes parcio yn hytrach nag mewn preifatrwydd blwch pleidleisio. Codwyd eraill i fyny grisiau neu bu'n rhaid iddynt ddefnyddio rampiau peryglus i fynd i mewn i bleidleisio.

Fe fyddai fodd bynnag yn annheg dweud fod yr holl bobl anabl wedi wynebu rhwystrau mor ddramatig. Yn llawer mwy cyffredin mae rhwystrau hygyrchedd bob dydd, sy'n ei wneud yn anoddach i berson anabl bleidleisio. Mae'n siomedig na chofnododd Etholiadau'n Eithrio ostyngiad yn y rhain o'i gymharu gyda chanlyniadau ein harolwg ar gyfer Etholiad Cyffredinol 2001.

Ni allwn gynnig cymhariaeth uniongyrchol gyda Lloegr neu Gymru ar gyfer yr etholiad hwn, fodd bynnag, nid ydym yn credu fod daearyddiaeth Cymru neu natur etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol yn gwneud darparu gorsafoedd pleidleisio hygyrch yn llawer anoddach. Yr un rhai yw nifer o'r materion hyn.

Rhaid i bleidleiswyr Cymru deithio'n bellach ar gyfartaledd i orsafoedd pleidleisio nac yng ngweddill y DG. Nid yw cyrraedd yr orsaf bleidleisio heb gar yn hawdd mewn sawl ardal. Golyga hyn fod cludiant hygyrch yn dod yn fater allweddol, sydd angen ei ystyried ymhellach

Mae Etholiadau'n Eithrio yn cydnabod fod Gweinyddwyr Etholiadol a Swyddogion Canlyniadau yn ymdrechu'n galed i wella hygyrchedd eu gorsafoedd pleidleisio. Nid bwriad yr adroddiad hwn yw beirniadu eu gwaith er y gobeithiwn y byddant yn cymryd sylw o'r materion yr ydym wedi eu codi.

Mae gan Weinyddwyr Etholiadol waith anodd, sef dod o hyd i leoliadau priodol ar gyfer gorsafoedd pleidleisio ac mae'n rhaid iddynt gyfaddawdau. Pwysleisiodd canfyddiadau'r adroddiad hwn fodd bynnag fod ganddynt lawer iawn o waith i'w wneud i wneud yn siwr fod pob gorsaf bleidleisio yn hygyrch erbyn Hydref 2004

Mae hwn yn swnio fel jôc wael ond yr esboniad mwyaf cyffredin am beidio gallu darparu gorsafoedd pleidleisio hygyrch yw presenoldeb mynyddoedd. Mae Etholiadau'n Eithrio wedi dangos fod yna nifer o resymau pam nad yw gorsafoedd pleidleisio yn hygyrch yng Nghymru – diffyg mynediad gwastad, rampiau sydd wedi eu cynllunio'n wael, drysau cul, ystafelloedd heb fawr o olau – nid oedd mynyddoedd fodd bynnag yn ymddangos yn yr un ohonynt.

Efallai y bydd gan bobl anabl eu hunain rai atebion. Gobeithiwn y bydd rhai o'r syniadau a gynhyrchwyd gan yr ymgyrch gwirfoddolwyr Etholiadau'n Eithrio yn cynorthwyo i ganfod sut y gellid gwella hygyrchedd.

Dadansoddiad o awdurdodau lleol

Awdurdod Lleol	Gorsafoedd pleidleisio	% hygyrchedd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent	7	29
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	5	20
Bwrdeistref Sirol Caerffili	10	30
Cyngor Sir Caerdydd	22	27
Cyngor Sir Gaerfyrddin	7	29
Cyngor Sir Ceredigion	6	17
Dinas a Sir Abertawe	20	15
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	35	20
Cyngor Sir Ddinbych	21	15
Cyngor Sir Fflint	7	15
Cyngor Gwynedd	5	20
Cyngor Sir Ynys Môn	4	0
Cyngor Sir Merthyr Tudful	4	0
Cyngor Sir Fynwy	14	38
Cyngor Sir Castell-nedd Port Talbot	32	25
Cyngor Sir Casnewydd	28	21
Cyngor Sir Benfro	7	43
Cyngor Sir Powys	6	0
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	22	27
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen	28	50
Cyngor Sir Bro Morgannwg	20	30
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	2	50

Dychwelwyd wyth o arolygion heb enwi etholaeth.

Rhestr wirio hygyrchedd

Nid yw gwella hygyrchedd mor anodd ag y mae'n ymddangos. Mewn sawl achos gall newidiadau bach wneud gwahaniaeth mawr. Isod mae rhestr wirio ar gyfer swyddogion sydd am wneud yn siwr fod gorsafoedd pleidleisio'n hygyrch i bleidleiswyr anabl.

Cyrraedd yno:

- Oes parcio penodedig neu barcio wedi ei gadw ar gyfer pobl anabl neu bobl hŷn yn agos i'r orsaf bleidleisio? Os nad oes parcio, allwch chi ddarparu parcio dros dro dim ond ar gyfer y diwrnod pleidleisio e.e. agor maes chwarae ysgol neu atal y cyfyngiadau parcio arferol ar gyfer pobl anabl?
- Os ydi'r parcio ar ffordd, oes cwrb wedi ei ostwng yn agos i alluogi hygyrchedd i ddefnyddiwr cadair olwyn i'r palmant?
- Ydi'r orsaf bleidleisio a pharcio ar gyfer pobl anabl wedi ei arwyddbostio'n glir o'r ffordd? Os oes mwy nag un mynedfa, ydynt hwy wedi eu harwyddbostio o bob cyfeiriad posib? Llythrennau bach mewn du a ffont sans serif megis Arial neu Helvetica ar gefndir gwyn sydd hawsaf i'w darllen.
- Ydi'r ffordd i'r orsaf bleidleisio yn ddirwystr ac mewn cyflwr da? Mae cerrig palmant wedi torri, cerrig mân, tyllau, ceir wedi parcio a rhwystrau eraill yn gwneud hygyrchedd yn llawer anoddach.

Mynd i mewn:

- Gall grisiau un gris bychan hyd yn oed wneud gorsaf bleidleisio'n anhygyrch i nifer o bobl anabl neu hŷn. Os oes grisiau i fynedfa eich gorsaf bleidleisio, oes ramp yn ei lle fel y gall pobl gydag amhariadau symud fynd i mewn?
- Ydi'r ramp wedi ei chynllunio'n briodol ar gyfer y gwaith? Gall ramp sydd wedi ei chynllunio'n wael fod yn beryglus ac nid yw'n gwella hygyrchedd. Dylai ramp da gael graddiant bychan (tua 1:20), fod yn gryf ac yn wastad, gydag ymylon neu reilins wedi eu codi bob ochr. Os nad yw'r ramp yn barhaol dylai fod wedi ei gosod yn sownd i'r grisiau fel na all llithro na chrynu.
- Os yw prif fynedfa i'ch gorsaf bleidleisio yn anhygyrch oes mynedfa arall sy'n hygyrch? A ellid defnyddio'r fynedfa hon fel y prif fynedfa? Ydi unrhyw fynedfa arall ar gyfer pobl anabl wedi eu arwyddbostio'n glir? Nid oes yn rhaid i chi ddefnyddio arwyddion 'mynediad anabl' os oes un mynedfa ar gyfer pawb.

- Ydi'r drws i mewn i'r orsaf bleidleisio yn ddigon llydan i ddefnyddiwr cadair olwyn fynd trwyddo'n hawdd? Os yw'r drysau'n drwm, yn anodd eu trin neu fod ganddynt ddolenni a allai fod yn anodd eu cyrraedd ydych chi wedi eu dal ar agor gyda rhywbeth? Os ydych yn eu dal ar agor gwnewch yn siwr nad ydych yn rhwystro'r mynediad.

Tu fewn i'r orsaf bleidleisio:

- Oes mynediad gwastad o fynedfa'r orsaf bleidleisio i'r ardal pleidleisio? Mae grisiau mewnol gymaint o broblem â rhai allanol a bydd angen rampiau i'w gwneud yn hygyrch.
- Ydi'r matiau drws yn wastad gyda'r llawr? Os nad ydynt, allwch chi eu symud?
- Ydi'r llawr yn un di-lithr, gwastad a lefel? Gall lloriau wedi eu polisio fod yn llithrig tra gall carped trwchus a matiau rhydd achosi pobl i faglu neu fynd yn sownd.
- Ydi'r orsaf bleidleisio wedi ei goleuo'n dda? Hyd yn oed ar ddiwrnod heulog fe all rhai pobl gydag amhariad gweledol fod angen y golau i bleidleisio'n annibynnol.
- Oes yna seddi ar gael i bobl orffwyso os bydd angen iddynt?
- Ydi unrhyw goridorau tu fewn i'r orsaf bleidleisio yn ddigon llydan i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn i fynd ar eu hyd yn hawdd? Gall rhwystrau megis dodrefn wedi eu pentyrru neu focsys beri problemau i bobl gydag amhariad gweledol yn ogystal ag i bobl gydag amhariad symud.
- Oes yna ddigon o ofod tu fewn i'r orsaf bleidleisio i ddefnyddiwr cadair olwyn i symud o gwmpas yn hawdd?

Pleidleisio:

- Oes yna flwch pleidleisio sy'n ddigon isel a digon llydan fel y gall defnyddiwr cadair olwyn bleidleisio yn ddigymorth ac yn gyfrinachol?
- Oes yna focs pleidleisio isel y gall defnyddiwr cadair olwyn ei gyrraedd heb gymorth? Gellir gwneud hyn drwy roi'r bocs pleidleisio ar gadair.
- Oes yna streipen wen o gwmpas y twll yn y bocs pleidleisio i gynorthwyo pobl ag amhariad gweledol i bostio eu pleidlais?

- Oes hysbysiad print bras o'r papur pleidleisio? Ydych chi wedi ei arddangos yn agos i'r blwch pleidleisio ar gyfer unrhyw un sydd am ei weld ei weld? Mae angen iddo fod yn isel ar y wal a heb hysbysiadau neu arwyddion o'i flaen. Mae ei roi yn y blychau pleidleisio yn un dewis da.
- Oes llythrennau print bras a symbolau'r pleidiau ar y papurau pleidleisio?
- Oes templed cyffyrddol i gynorthwyo pobl gyda nam ar eu golwg i bleidleisio'n ddigymorth? Wyddoch chi sut i'w ddefnyddio ac a allwch chi esbonio hyn i rywun?

Materion hygyrchedd cyffredinol:

- Efallai y bydd rhai pobl anabl angen cymorth ond mae pawb yn unigolion felly gofynnwch cyn cymryd yn ganiataol fod rhywun angen cymorth.
- Mae cabannau symudol, carafannau neu fathau eraill o gwt dros dro gan amlaf yn anhygyrch felly ceisiwch osgoi eu defnyddio nes eu bod wedi eu hail-gynllunio i gymryd anghenion hygyrchedd i ystyriaeth.
- Os nad ydych yn siwr am unrhyw fater yn ymwneud â hygyrchedd mae'n siwr y bydd eich grŵp anabledd lleol yn fwy na hapus i'ch cynghori ynghylch sut i wneud yn siwr fod eich gorsaf bleidleisio yn hygyrch i bleidleiswyr.
- Mae nifer o bobl anabl yn disgwyl cael problemau pan yn dod i bleidleisio. Os ydych wedi meddwl am yr holl faterion uchod gwnewch yn siwr eich bod yn gadael i bobl wybod. Rhowch fanylion hygyrchedd ar y cerdyn pleidleisio a gwnewch yn siwr fod yr Adran Gwasanaethau Etholiadol yn gwybod am y materion a gallant gynghori pobl.
- Sefydlwch linell gymorth rhadffon (gyda dewis ffôn testun) y gall pleidleiswyr anabl ei ffonio i holi am unrhyw bryderon y gallai fod ganddynt. Gwnewch yn siwr eich bod yn rhoi cyhoeddusrwydd mawr i hyn.

Ymgyrchu o gwmpas Etholiadau'n Eithrio

Os ydych yn darllen yr adroddiad hwn rydych yn barod yn helpu ymgyrch Etholiadau'n Eithrio. Po fwyaf o bobl sy'n gwybod am y materion y gorau yw'r siawns y gallwn wella hygyrchedd i orsafoedd pleidleisio.

Os ydych am helpu mewn ffyrdd eraill dyma rai syniadau.

Siarad am Etholiadau'n Eithrio

Os ydych yn aelod o blaid wleidyddol, undeb llafur, grŵp crefyddol neu fudiad cymunedol neu grŵp ymgyrchu arall rhowch Etholiadau'n Eithrio ar yr agenda. Codwch y mater mewn cyfarfodydd neu hysbyswch bobl trwy eich cylchlythyr. Nid oes yn rhaid i chi wneud hyn yn ffurfiol, er y byddai'n dda pe gallech. Y peth pwysicaf yw bod gymaint o bobl â phosib yn gwybod am yr ymgyrch a'r materion.

Cysylltu â'ch AC, AS a chynghorwyr lleol

Os buoch chi mewn gorsaf bleidleisio gyda hygyrchedd gwael ysgrifennwch at eich Aelod Cynulliad a gadewch iddynt wybod am y problemau y mae etholwyr anabl yn eu hwynebu pan yn ceisio pleidleisio. Gallwch hefyd gysylltu â'ch aelod seneddol, cynghorwyr lleol a'r papur lleol.

Cwyno

Dewis arall yw cwyno'n swyddogol i'r Rheolwr Gwasanaethau Etholiadol yn eich awdurdod lleol. Ysgrifennwch lythyr atynt a dweud wrthynt pam fod yr orsaf bleidleisio yn anhygyrch a gofyn beth fydd yn cael ei wneud i sicrhau ei bod yn hygyrch ar gyfer yr etholiad nesaf. Copïwch unrhyw lythyrau i Scope a'ch cynghorydd lleol.

Etholiadau yng Nghymru

Mae daearyddiaeth, iaith, amrywiaeth gwleidyddol yn rai o'r rhesymau pam fod etholiadau yng Nghymru yn wahanol i weddill y DG.

Mae gan Gymru ddaearyddiaeth amrywiol. O fynyddoedd Gogledd Cymru i wastadeddau arfordirol y de, o'r dinasoedd yn y dwyrain i'r ardaloedd gwledig yn y gorllewin, mae bob rhan o Gymru'n wahanol.

Caiff hyn ei adlewyrchu yn y mathau o etholaethau. Mae rhai yn fawr, yn cwmpasu ardaloedd eang o bentrefi a threfi marchnad gwasgaredig. Mae eraill yn cynnwys dinasoedd trefol. Mae gan Gymru rai o'r crynoadau uchaf o eithrio cymdeithasol, gyda llawer ohono i'w weld yng nghymoedd De Cymru.

Bu rhaniad gogledd/de yng Nghymru ers sawl blwyddyn ond mae'r berthynas hon yn esblygu. Mae rhaniadau newydd wedi eu creu, yn arbennig rhwng Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a rhannau Dwyreiniol Cymru.

Mae'r Gymraeg hefyd yn chwarae rhan arwyddocaol mewn rhoi hunaniaeth unigryw i Gymru. Eto nodweddir gwahanol rannau o Gymru gyda'u hagweddau tuag at yr iaith. Mae canolfannau Cymraeg eu hiaith yng Ngogledd Orllewin Cymru yn rhoi pwyslais hollol wahanol ar y Gymraeg i'r ardaloedd mwy trefol ddiwydiannol yn Ne Ddwyrain Cymru.

Mae'r Gymraeg yn iaith fyw iawn a chaiff yn ei adlewyrchu yn etholiadau Cymru sy'n ddwyieithog. Caiff llenyddiaeth pleidiau, darllediadau teledu, cofrestriad etholiadol a deunydd etholiad i gyd eu cynhyrchu yn Gymraeg a Saesneg.

Mae llawer o bobl anabl am gyfathrebu yn Gymraeg a chaiff eu hawl i wneud hyn eu diogelu gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Mae'r holl ffactorau hyn, ynghyd â'r ffaith bod pedair prif blaid wleidyddol, yn gwneud y broses etholiad yng Nghymru yn brofiad nad sy'n hawdd i'w gymharu.

Maniffestos y Pleidiau

Fel rhan o'n gwerthusiad o Etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol edrychom hefyd ar faniffestos y pleidiau. Gwnaethom hyn i weld os oeddent wedi eu cynhyrchu mewn fformatau hygyrch ac i weld os oeddent yn cynnwys materion oedd yn uniongyrchol berthnasol i bobl anabl.

Plaid Geidwadol Cymru

Gosodiad a fformatau

Roedd y maniffesto'n ddogfen 160 tudalen lliw llawn gyda'r Gymraeg a'r Saesneg gefn wrth gefn. Roedd y ffont a ddefnyddiwyd yn rhy fach. Gosodwyd rhai rhannau o'r testun ar gefndir nad oedd yn cyferbynnu. Nid yw hyn yn cydymffurfio â safonau print clir RNIB.

Roedd y ddogfen hon ar gael mewn gwahanol fformatau megis ar dâp, neu mewn Braille drwy ffonio Swyddfa Ganolog Ceidwadwyr Cymru. Roeddent hefyd ar gael ar-lein ar ffurf Acrobat. Ni hysbysebwyd hyn yn y ddogfen.

Polisïau

Mae'r maniffesto'n clustnodi hanner tudalen ymhob iaith i bobl anabl. Mae'r ddogfen yn amlinellu ymroddiad y Blaid i'r model cymdeithasol o anabledd. Roedd hefyd yn nodi y byddai gweinyddiaeth Geidwadol yn gosod targedau hygyrchedd anabledd o fewn addysg a gwaith.

Cadarnhaodd y maniffesto ymroddiad i ymestyn taliadau uniongyrchol fel hawl i unigolion gydag anghenion wedi eu hasesu. Byddai hyn yn rhoi annibyniaeth gynyddol i nifer o bobl anabl a dod â Chymru yn gyson gyda pholisi yn Lloegr.

Plaid Lafur Cymru

Gosodiad a Fformatau

Cynhyrchwyd y maniffesto mewn dogfen 50 tudalen lliw llawn gyda'r Gymraeg a'r Saesneg gefn wth gefn. Roedd y llythrennau a ddefnyddiwyd yn rhy fach ac nid oedd yn cydymffurfio â safonau print clir RNIB.

Roedd fformatau eraill ar gael fel Braille a phrint bras gan Bencadlys Llafur Cymru drwy gysylltu â hwy ar y ffôn neu drwy ebost. Ni hysbysebwyd hyn yn y ddogfen. Fe'i darparwyd hefyd ar-lein fel dogfen Acrobat.

Cyfeiriodd y ddogfen hon at ‘yr anabl’, defnydd o iaith sy’n amhriodol

Polisïau

Soniodd y maniffesto lawer am ei bolisi ‘llwyddiannus’ o bas bysus rhad ac am ddim i bobl anabl. Ni soniodd fodd bynnag sut y mesurir llwyddiant y polisi hwn, nifer y bobl anabl, neu wneud unrhyw sylwad ar hygyrchedd y cerbydau oedd yn rhan o’r cynllun.

Gwnaeth Plaid Lafur Cymru addewid penodol i gael gwared ar godi am wasanaethau gofal cartref sy’n cynnwys pobl anabl.

Hefyd yn y ddogfen hon roedd addewid o ymroddiad tuag at gyfle cyfartal sy’n cynnwys pobl anabl.

Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

Gosodiad a fformatau

Roedd Maniffesto Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn ddogfen 76 tudalen lliw llawn gyda’r Gymraeg a Saesneg gefn wrth gefn. Roedd y ffont a ddefnyddiwyd yn rhy fach. Gosodwyd rhai rhannau o’r testun ar gefndir nad oedd yn cyferbynnu. Nid yw hyn yn cydymffurfio â safonau print clir RNIB.

Ar dudalennau canol y ddogfen argraffwyd manylion cyswllt print bras ar sut i gael fformatau gwahanol. Efallai y byddai’n well cael hyn ar y dudalen gyntaf. Y fformatau eraill oedd ar gael oedd print bras, tâp sain ac fel dogfen Acrobat ar-lein.

Roedd y defnydd o iaith mewn perthynas ag anabledd drwy’r ddogfen gyfan yn dda gydag ond un defnydd o’r ymadrodd “pobl gydag anableddau”

Polisïau

Cyfeiriodd maniffesto y Democratiaid Rhyddfrydol sawl gwaith at y gymuned anabl. Addawodd i fynd i’r afael â materion sy’n effeithio pobl anabl yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol drwy gydol eu bywydau bob dydd.

Gwnaed ymroddiad clir i roi diwedd ar wahaniaethu i bob grŵp lleiafrifol gan gynnwys pobl anabl.

Plaid Cymru

Gosodiad a fformatau

Roedd maniffesto Plaid Cymru yn ddogfen 52 tudalen wedi ei chynhyrchu naill ai'n y Gymraeg neu'r Saesneg. Roedd y ffont a ddefnyddiwyd yn ardderchog ar gyfer hygyrchedd gweledol.

Nid oedd y ddogfen hon ar gael mewn unrhyw fformat hygyrch arall. Nid oedd rhifau tudalennau ar y fersiwn ar-lein ar gyfer adrannau perthnasol ar y dudalen gynnwys. Gwnaeth hyn hi'n anodd i lawer o bobl gydag amhariadau gweledol weithio'u ffordd drwyddi.

Polisïau

Mae'r ddogfen yn cynnwys adran fanwl ar anabledd. Mae hyn yn pwysleisio ymroddiad Plaid Cymru i'r model cymdeithasol o anabledd.

Mae hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd gwneuthurwyr polisi yn gweithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau anabledd. Mae yna hefyd ymroddiad cryf i gydnabod Iaith Arwyddion Prydain (BSL) fel iaith ynddi ei hun ac i hyrwyddo ei defnydd.

Casgliad

Rydym yn wir wedi ein bodloni bod holl bleidiau gwleidyddol Cymru wedi cynnwys pobl anabl a materion anabl yn eu maniffestos.

Cysylltiadau Defnyddiol

Scope Cwmpas Cymru
Y Lanfa
Ffordd y Sgwner
Caerdydd
CF10 4EU
Ffôn: 029 20 461703
Ebost:
mail@cwmpascymru.org.uk
www.scope.org.uk

Comisiwn Hawliau Anabledd Cymru
Unedau 5 a 6
Ty Nant Court
Ty Nant Road
Treforgan
Caerdydd
CF15 8LW
Ffôn: 029 20 815602
Ebost: enquiry@drc-gb.org
www.drc-gb.org

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
Ffôn: 029 20 825111
Ebost:
assembly.info@wales.gsi.gov.uk
www.wales.gov.uk

Bwrdd yr Iaith Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol y Santes Fair
Caerdydd
CF10 1AT
Ffôn: 029 20 878000
Ebost:post@welsh-language-board.org.uk
www.welsh-language-board.org.uk

Plaid Cymru
Ty Gwynfor
18 Park Grove
Caerdydd
CF10 3BN
Ffôn: 029 20 646000
Ebost: post@plaidcymru.org

Plaid Geidwadol Cymru
4 Penlline Road
Yr Eglwysnewydd
Caerdydd
CF14 2XS
Ffôn: 029 20 616031
Ebost: ccowales@tory.org

Plaid Lafur Cymru
Transport House
1 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9HA
Ffôn: 029 20 877700
Ebost:
wales@new.labour.org.uk

Plaid Werdd Cymru
PO Box 10
Aberpennar
CF45 4YZ
Ffôn: 01443 741242
Ebost:
jmatthews@headweb.co.uk

Anabledd Cymru
Wernddu Court
Parc Busnes Caerffili
Van Road
Caerffili
CF83 3ED
Ffôn: 029 20 887325
www.dwac.demon.co.uk

RNIB Cymru
Trident Court
East Moors Road
Caerdydd
CF24 5TD
Ffôn: 029 20 450440
Ebost: gavin.cox@rnib.org.uk
www.rnib.org.uk

RNID Cymru
3ydd Llawr
33-35 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9HB
Ffôn: 029 20 333034
Minicom: 029 20 333036
Ebost:
rnidcymru@rnid.org.uk.uk

SCOVO (Standing Conference of Voluntary Organisations for People with a Learning Disability in Wales)
5 Dock Chambers
Stryd Bute
Caerdydd
CF10 5AG
Ffôn: 029 20 492443
Ebost:enquiries@scovo.org.uk
www.scovo.org.uk

Y Comisiwn Etholiadol
Caradog House
1-6 St Andrews Place
Caerdydd
CF10 3BE
Ffôn: 029 20 346800
Ebost:
infowales@electoralcommission.org.uk
www.electoralcommission.org.uk

Etholiadau'n Eithrio
d/o Scope Cwmpas Cymru,
Y Lanfa,
Ffordd y Sgwner,
Caerdydd,
CF10 4EU
Ffôn: 02920 461703
Ebost: info@pollsapart.org.uk
www.pollsapartcymru.org.uk

Polls Apart (DG)
Polls Apart
c/o Scope
6 Market Rd
London
N7 9PW
Ffôn: 020 7619 7245
Ebost: info@pollspart.org.uk
www.pollspart.org.uk